2024

# Pecyn Cynllun Cysgodi

## Gwobrau Tir na n-Og 2024


## Categori Cynradd










## Cynnwys


**Llyfrau'r Rhestr Fer** 2

**Sbardun Sgwrs:** 3
*Cwestiynau a phwyntiau i sbarduno trafodaeth*

**Sbardun Syniadau:** 4
*Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg*

**Adnabod Awdur**
- Daf James 8
- Casia Wiliam 10
- Caryl Lewis 11
- Sioned Wyn Roberts 12

**Adnabod Darlunydd**
- Naomi Bennet 13
- Valériane Leblond 15

**Y Beirniaid** 16

**Sylwadau'r Beirniaid** 17

**Tudalen Nodiadau** 21

**Matrics Sgorio** 22

**Cardiau Pleidleisio** 23




## **Jac a'r Angel** (Y Lolfa) *Ffuglen*

**Awdur: Daf James Darlunydd: Bethan Mai**

Stori Nadoligaidd hwyliog am fachgen ifanc sy'n byw ym mhentref Bethlehem gyda'i dad-cu yw *Jac a'r Angel*. Un diwrnod mae Jac yn cwrdd ag angel sy'n cynnig dymuniad arbennig iddo.

Dyma nofel ddoniol, annwyl a theimladwy i ddarllenwyr 9+ oed am fachgen diniwed sy'n defnyddio ei ddychymyg i oresgyn galar a grymoedd tywyll bywyd.

---




## **Y Gragen** (Cyhoeddiadau Barddas) *Ffuglen, Barddoniaeth*

**Awdur: Casia Wiliam Darlunydd: Naomi Bennet**

"Ond ni ddes adre'n waglaw, o'r gwyliau ger y lli, roedd cragen yn fy mhoced a rhywbeth ynddi hi." Stori mewn mydr ac odl am blentyn o'r ddinas fawr yn ymweld â thraeth mewn pentref ar lan y môr am y tro cyntaf. Yno mae'r plant yn chwerthin wrth fwyta hufen iâ, y gwymon yn gwichian a byd natur yn canu'n un.

Ceir cod QR yng nghefn y llyfr er mwyn cael adnoddau addysg ar-lein.

---





## **Mari a Mrs Cloch** (Y Lolfa) *Ffuglen*

**Awdur: Manon Steffan Ros**
**Darlunydd: Valériane Leblond**

Dewch i gwrdd â Mari wrth iddi fynd â mins peis i Mrs Cloch drws nesa ar Noswyl Nadolig. Hen ddynes fach unig, nad oes neb byth yn galw i'w gweld, yw Mrs Cloch. Mae Mari yn ei helpu i addurno'r goeden Nadolig ag addurniadau o bob cwr o'r byd, cyn i ymwelydd annisgwyl alw yn y tŷ.

Stori sy'n llawn cariad, ysbryd cymunedol a naws y Nadolig, ac mae ynddi gymeriadau arbennig iawn.

---




## **Wyneb yn Wyneb** (Atebol) *Ffuglen, Hanesyddol*

**Awdur: Sioned Wyn Roberts**

"Dwi'n casáu Robat Wyllt. Bron iawn gymaint ag ydw i'n casáu fy hun."

Mwrddrwg ydy Twm y Lleidr. Dwyn. Twyllo. Bwlio. Mae e'n giamstar ar y cyfan. Ond mae rhywbeth ar goll; mae gwacter yn ei fywyd a does ganddo ddim syniad pam. Un noson dywyll, tra bod Twm wrth ei waith, daw wyneb yn wyneb â'i ffawd, a darganfod gwirionedd ysgytwol sy'n newid cwrs ei fywyd am byth. Stori antur gyffrous.

---

***Cofiwch fod rhai o'r llyfrau ar gael yn ddigidol fel e-lyfrau hefyd. Ewch i'ch siop lyfrau, llyfrgell leol neu i'n gwefan www.gwales.com i ddod o hyd i'r teitlau uchod ac am fwy o wybodaeth.***




# Cwestiynau a phwyntiau trafod i sbarduno trafodaeth

- Beth wnaethoch chi ei fwynhau fwyaf am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad o'r llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Disgrifiwch y llyfr mewn tri gair.
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo neu iddi?
- Ydych chi'n credu bod y teitl yn gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n galw'r llyfr?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fyddech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio ar y stori? Ym mha ffordd?
- Petai tri chopi o'r llyfr gennych i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fyddech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- A gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?
- Ydych chi'n hoffi'r darluniadau/lluniau? Pam hynny?
- Oes gennych chi hoff lun yn y llyfr? Pam mai dyna yw eich hoff lun?
- Yn eich barn chi, beth mae'r lluniau yn ychwanegu at y stori?






# Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

### Meysydd Dysgu a Phrofiad

**Y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Mathemateg a Rhifedd**

***Jac a'r Angel***
gan Daf James

## Beth am ...

### Trafod

Mewn grwpiau neu barau, darllenwch yr ail bennod eto. Yna, trafodwch beth fyddech chi'n ei wneud pe baech chi'n derbyn cynnig fel yr un gafodd Jac. Pa ddymuniadau fyddech chi'n eu dewis? Yna, gallwch chi wneud jar 'dymuniadau'r dosbarth' lle mae pawb yn ysgrifennu eu dymuniadau ar ddarn o bapur a'u plygu i'w rhoi yn y jar.

### Dylunio

Yn yr ail bennod, mae Jac yn dod o hyd i galendr adfent ei fam. Mae disgrifiad ohono ar dudalen 19. Mae edrych ar y calendr fel "sefyll ar drothwy byd o hud a lledrith", yn ôl Jac. Beth am ddylunio calendr hud a lledrith eich hunan, gydag angylion, pobl neu greaduriaid arbennig o'ch dewis chi y tu ôl i'w ddrysau bach? Neu, fel tasg i'r dosbarth cyfan, beth am ddylunio calendr caredigrwydd gyda syniadau ac awgrymiadau i chi i'w cwblhau trwy gydol misoedd y flwyddyn?

### Cynllunio

Beth am gynllunio Eisteddfod yr Angylion neu "Ecstrafagansa" Nadolig? Os ydych chi'n dewis Eisteddfod yr Angylion, meddyliwch am y mathau o gystadlaethau, stondinau a pherfformiadau i'w cynnwys. Os ydych chi'n dewis "Ecstrafagansa" Nadolig (neu ŵyl arall), pa fath o sioe – fel sioe gerddorol neu ddrama – hoffech chi ei gwneud? Gallwch chi gynnwys pethau fel gwisg, sgriptiau, cerddoriaeth a thechnoleg os hoffech chi wneud sioe ddigidol.




### Datrys y Cwestiynau Mathemateg

Beth am ddatrys y cwestiynau mathemateg?

1. Fel mae'n nodi ar gefn y clawr, mae 24 pennod yn y llyfr a 24 diwrnod i'r calendr adfent. Sawl diwrnod fyddai'n ei gymryd i ddarllen llyfr sydd â 24 pennod os ydych chi'n darllen dwy bennod y dydd? Beth am dair pennod, neu bedair pennod y dydd?
2. "Roedd yr angel yn anferth – tua thri metr o leiaf" (tudalen 21): Pa mor hir yw 3 metr mewn centimetrau? Allwch chi ddod o hyd i ddigon o wrthrychau yn eich dosbarth neu ysgol sy'n 3 metr o hyd? Sawl pren mesur 30 centimetr fyddwch chi ei angen i fesur yr hyd hwn?




# Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

Y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

***Y Gragen***
gan Casia Wiliam

## Beth am ...

### Ysgrifennu

Beth am ysgrifennu eich cerddi eich hun? Dyma ambell syniad i'ch ysbrydoli:
Cerdd sy'n disgrifio ...

- Gwyliau cofiadwy
- Bod ar lan y môr
- Bod mewn dinas
- Y tro cyntaf i chi fynd i rywle arbennig




### Perfformio

Beth am actio neu greu symudiadau i'r gerdd neu i rai o'r delweddau yn y llyfr? Meddyliwch am:

- Sut mae'r gwymon, y gwylanod neu'r bobl yn symud
- Pa ystumiau i'w defnyddio
- Sut i adrodd y geiriau – mewn llais uchel neu sibrwd, fel enghraifft.

### Trafod

Mewn grwpiau neu barau, beth am drafod y gwahaniaethau rhwng byw mewn dinas a byw ar lan y môr? Pa eiriau o'r llyfr ydych chi'n gallu eu defnyddio wrth drafod, er enghraifft, lle ydych chi fel arfer yn gweld “gardd”, neu “goeden” a “blodau” (tudalen 3), neu “fflatiau” ac “adeiladau mawr” (tudalen 5)? Ar ôl trafod, beth am greu cyflwyniad trwy ddefnyddio technoleg i ddangos i'ch cyd-ddisgyblion?

### Ymchwilio

Beth am wneud gwaith ymchwil i ddysgu mwy am greigiau a'r môr? Pam mae y tu mewn i gragen yn swnio fel y môr?

# Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

Y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles

***Mari a Mrs Cloch***
gan Caryl Lewis

## Beth am ...

### Ymchwilio

Mewn grwpiau neu barau, beth am wneud gwaith ymchwil i ddysgu mwy am un o'r gwledydd yn y llyfr, fel yr Ariannin, yr Eidal neu'r Almaen? Allwch chi ddefnyddio llyfrau neu'r we i ddod o hyd i wybodaeth. Yna, beth am wneud cwis yn y dosbarth lle mae pawb o bob grŵp neu bâr yn cyfrannu dau gwestiwn am y wlad maen nhw wedi ei dewis? Er enghraifft, pa liwiau sydd ar faner Japan? Pwy yw nawddsant yr Eidal?




### Ysgrifennu

Beth am ysgrifennu paragraff am y Nadolig, neu am ŵyl neu ddathliad arbennig arall sy'n aros yn y cof i chi? Beth oedd yn ei wneud yn arbennig? Gallwch chi gynnwys manylion, er enghraifft, am y lleoliad – fel tŷ Mrs Cloch – neu'r synau a'r arogleuon, fel y "mins peis cynnes yn dod o'r gegin fach a sŵn chwerthin ..." (tudalen 5).

### Trafod

"Roedd rhywbeth yn poeni Mari" ar ddechrau'r llyfr (tudalen 5). Allwch chi ailddarllen tudalennau 5–8 i ddod o hyd i'r rheswm pam mae Mari'n poeni? Beth am drafod y gwahanol ffyrdd y gallwn ni ddangos caredigrwydd i'n ffrindiau a'n cymdogion yn ein cymunedau?

### Dylunio

Beth am ddylunio addurn o Gymru i fynd ar goeden Nadolig Mrs Cloch? Meddyliwch am bethau sy'n rhan bwysig o ddiwylliant a hanes Cymru. Dyma ambell syniad i'ch ysbrydoli: llwy garu, draig, cennin Pedr.












# Beth am …? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

**Y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Iechyd a Lles**


***Wyneb yn Wyneb***
gan Sioned Wyn Roberts

## Beth am …

### Ysgrifennu

Mae'r nofel wedi'i gosod yn y 19eg ganrif. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai pobl yn ysgrifennu llythyrau at ei gilydd. Mae enghraifft o lythyr ar dudalen 34. Beth am ysgrifennu llythyr at un o'r cymeriadau canlynol: Twm y Lleidr, Albert John Ellis, Syr Hugh John Ellis, Mr Watkins neu Robat Wyllt? Meddyliwch am y cwestiynau canlynol: Pa fath o gymeriadau ydyn nhw? Pa eiriau ydych chi'n meddwl y bydden nhw'n eu defnyddio? Sut ydych chi'n meddwl y bydden nhw'n ysgrifennu? Yna, cyfnewidiwch eich llythyrau a thrafodwch. Gallwch chi hyd yn oed ateb llythyr eich partner!

- Syr Hugh John Ellis – aelod Seneddol ac Uchel Siryf sir Gaernarfon
- Ifan Jôs y Cigydd
- Mr Richards – athro Albi
- Wini y forwyn
- Mr Harris-Tic-Toc – y gwneuthurwr clociau
- Lora Lôn Isa
- Huw Dow-Dow – hogyn stabl ym Mhlas Bodfel
- Mr Amos Owens, y teiliwr, a'i ferch Grace




### Ymchwilio

Beth am ddarganfod mwy am hanes y 19eg ganrif, a bywyd mewn wyrcws fel Gwag y Nos, neu ar long fel y *Mary Watkins*? Defnyddiwch enghreifftiau o'r nofel i'ch helpu chi. Allwch chi greu rhestr o'r gwahaniaethau rhwng byw a bod yn y 19eg ganrif a byw a bod yn yr 21ain ganrif?

### Perfformio

Beth am berfformio rhan o'r llyfr fel dosbarth neu mewn grwpiau? Neu, ysgrifennwch sgript wedi'i hysbrydoli gan y llyfr gan ddefnyddio rhai o'r cymeriadau canlynol. Gallwch chi ffilmio'ch perfformiadau ac ychwanegu effeithiau trwy ddefnyddio meddalwedd fideo.

- Twm y Lleidr
- Albert John Ellis (Albi)
- Robat Wyllt
- Mr Watkins – Pennaeth y Wyrcws
- Nyrs Jenat – Nyrs y Wyrcws
- Jet y ci
- Elsi Lôn Fudr – plentyn sy'n byw yn wyrcws Gwag y Nos

### Trafod

Darllenwch y dyfyniadau isod. Pam ydych chi'n meddwl bod Twm yn teimlo fel hyn? Beth mae'r gair 'perthyn' yn ei olygu i chi? Ydych chi'n meddwl bod Twm yn gwybod bod bwlio yn annheg ac annerbyniol?

"Does neb yn Gwag y Nos yn ffrind i Twm y Lleidr. Twm y Bwli. A phwy all eu beio nhw?" (tudalen 12)

"Fedra i'm stopio meddwl am neithiwr. Am Albi. Fy efaill. A'r teimlad cynnes 'na tu fewn i mi pan sylweddolais i fod gen i frawd. Teulu. Am y tro cynta erioed, dwi'n perthyn. Dydw i ddim ar ben fy hun." (tudalen 36)

"Y gwir ydy, does gynno fo ddim amgyffred o'r tlodi a'r creulondeb dwi wedi'i ddiodde yn y wyrcws. Profiadau sy wedi fy llygru i tu fewn. Fy nhroi yn lleidr ac yn fwli fy hun. Jest er mwyn i mi oroesi yn yr uffern 'na." (tudalennau 44–5)

"Am stori gyfan gwbwl erchyll. Ac mae Twm yn sylweddoli hynny hefyd. Achos ar ôl iddo adrodd yr hanes creulon, a bod y gwirionedd yn drwm yn yr aer, mae hi'n amlwg bod cywilydd yn codi tu fewn iddo fel cyfog gwag!" (tudalen 56)

# Daf James






**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yn y Bont-faen.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Iolo Morganwg ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n casáu mynd ar y bws. Roedd anarchiaeth lwyr: y bwlis yn cael eu ffordd eu hunain. Ond ro'n i'n ffindo cysur yn y stafell gerdd neu'r stiwdio ddrama; tym' bach fel Jac yn y llyfr!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Actor. Do'n i ddim yn adnabod neb oedd yn sgwennu. Do'n i ddim yn gwbod bod hi'n bosib cael gyrfa fel sgwennwr!

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech chi'n blentyn?**
*The Witches* a *To Kill a Mockingbird*. Ro'n i hefyd yn hoff iawn o *The Chronicles of Narnia* a llyfrau Gwenno Hywyn ac Irma Chilton.

**Beth yw eich diddordebau?**
Sgwennu a chyfansoddi. Dwi'n teimlo'n lwcus iawn bo' fi'n cael ennill bywoliaeth wrth neud beth wi'n garu. Yn ddiweddar dwi wedi dechrau mwynhau mynd i'r *gym* a chodi pwysau – achos dwi'n eistedd ar fy mhen-ôl drwy'r dydd yn sgwennu – a dwi wedi dechrau cael gwersi sielo hefyd.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Fy ngŵr a'm plant!

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Fy ngŵr a'm plant! Ac arweinwyr a gwleidyddion yn dweud celwydd.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Ers 'mod i'n gallu sgwennu, dwi wastad wedi sgwennu'n greadigol. Yn blentyn ro'n i'n dwlu creu straeon byrion a barddoniaeth. Ond ro'dd popeth eitha morbid a thywyll! Dwi'n meddwl o'n i'n ymarfer shwt i ymdopi ag emosiynau mawr bywyd drwy sgwennu.

Es i astudio llenyddiaeth Saesneg – lot o ddramâu – a gweithio fel *usher* mewn theatr. Ac yna, pan o'n i'n astudio mewn ysgol ddrama, sgwennes i fy nrama gyntaf, a sylweddoli bod yr holl bethau hyn – astudio dramâu, gwylio dramâu, actio, dysgu deialog – wedi bod yn arwain fi at fod yn ddramodydd. Daeth sgwennu nofel lot yn hwyrach, a fi yn fy mhedwardegau. Ond ro'n i wastad wedi isie sgwennu nofel – llyfrau o'dd fy nghariad cynta – a dyw hi byth yn rhy hwyr! Fel dramodydd ro'n i wedi dysgu lot am sut i ddweud stori a chreu cymeriadau. Ffurf gwahanol, ie, ond yr un yw'r nod, sef diddanu a chyffwrdd cynulleidfa drwy archwilio themâu sy'n bwysig i mi.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
O bobman! Profiadau personol, sgyrsiau dwi'n gorglywed, rhywbeth dwi'n ddarllen. Ambell waith ma' syniad yn glanio, fel manna o'r nefoedd; dro arall ma' sawl syniad gwahanol yn cydgyfarfod ar yr un pryd; ac ambell waith mae hedyn syniad yn plannu gwraidd yn yr isymwybod heb i fi wir sylwi, nes bod yr hedyn wedi tyfu'n goeden yn yr ymennydd na alla i ei anwybyddu mwyach.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Straeon am gymeriadau ymylol: pobl sy'n teimlo ar y 'tu fas'; straeon am gariad; straeon am gymeriadau yn gorchfygu anawsterau mawr; straeon am deuluoedd; straeon am hud a lledrith neu elfennau ffantasi a mytholegol; straeon am gymeriadau LHDTC+, straeon sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Dwi'n hoff iawn o straeon sy'n neud i fi chwerthin a chrio.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Yng ngeiriau anfarwol Eden (a'r angel yn *Jac a'r Angel*): paid â bod ofn! Dechreuwch sgwennu a pheidio gorfeddwl. Do'n i erioed wedi gweithio ar nofel pan ddechreues i ar *Jac a'r Angel*, felly benderfynes i iste lawr a sgwennu am awr y diwrnod cyn i'r plant godi. Ar ôl 'chydig fisoedd roedd drafft gen i! Yr her gyntaf yw cyrraedd y diwedd: mae'n haws ailsgwennu rhywbeth unwaith bod geirie ar bapur na syllu ar ddalen wag. Peidiwch poeni os yw e'n rybish chwaith. Bydd y lleisie mewnol yna wastad yn trio dweud nad yw eich gwaith yn ddigon da, ond rhaid anwybyddu nhw, a rhoi rhwydd hynt i fod yn rybish 'fyd. Ma' lot o 'ngweithiau mwyaf llwyddiannus wedi cychwyn fel rhywbeth o'n i'n meddwl o'dd yn rybish!

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?**
Mae cael unrhyw gynulleidfa i wrando ar eich stori yn fraint aruthrol; ond mae hefyd yn gallu neud i chi deimlo'n fregus – rhannu eich gwaith â phobl. Ma' isie bod yn ddewr ac ma' hynny'n gallu teimlo'n anodd, ond yn aml, y pethe sy'n teimlo anodda yw'r pethe sy wir yn werth eu gneud!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*The Witches* a *To Kill a Mockingbird*.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Dwi'n hoff iawn o Paddington. Dwi'n caru ei ddiniweidrwydd a'r ffordd mae e'n gweld y da mewn pobl – tym' bach fel Jac – ond ar ochr arall y sbectrwm, dwi wrth fy modd gyda chymeriadau cas fel Miss Trunchbull!

**Hoff le?**
Adre, traeth y Mwnt ac Ynys Llanddwyn.

**Hoff fwyd?**
Unrhyw beth gan fy ngŵr – mae e'n athrylith yn y gegin!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Y Dyn Nath Ddwyn y Dolig*. Mae'r ffilm wedi ysbrydoli *Jac a'r Angel*.

**Hoff air?**
Ansbaradigaethus – am air!

**Superpower o ddewis?**
Gallu hedfan. Pan o'n i'n blentyn ro'n i'n arfer breuddwydio am hedfan yn aml; ond bydde bod yn anweledig yn eitha cŵl hefyd! Ydw i'n gallu hedfan wrth fod yn anweledig?! 'Se hynna'n *brilliant*!

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram. Gan fy mod i'n trin geiriau drwy'r dydd, mae'n reit neis edrych ar ddelweddau.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy mhlant yn chwerthin llond eu boliau. A'r gair 'ansbaradigaethus'!

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
'Frontman' band cŵl yn perfformio ar brif lwyfan Glastonbury, neu bêl-droediwr gorau'r byd am ddiwrnod o leiaf, i brofi rhywbeth hollol wrthgyferbyniol. Bydde fy mhlant wrth eu bodde 'fyd!

**Top tip i ddarpar awduron:**
Mae gan bawb ei stori a'i ffordd unigryw o weld y byd: sgwennwch o'r galon a pheidiwch â bod ofn!

# Casia Wilam








**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yn Llangefni nes oeddwn i'n chwech, ac wedyn yn Nefyn ym Mhen Llŷn.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd Nefyn ac yna Ysgol Uwchradd Botwnnog.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n hoff iawn o gacen sbwng siocled efo cwstard siocled yn y cantîn, ac yn mwynhau cael ysgrifennu straeon a darllen nofel ar y cyd fel dosbarth, a chwarae rownders.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Awdur a cheidwad sw!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Dwi'n cofio gwirioni ar *Y Gwningen yn Cipio'r Tân*, ac yna *Gwe Gwenhwyfar*. W, a holl lyfrau Elgan Philip Davies hefyd, a llyfrau Judy Blume. Lot o ffefrynnau.

**Beth yw eich diddordebau?**
Crwydro, bwyta, a chwarae gyda fy meibion, Caio a Deri.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Bore braf a chynnes a'r adar yn canu. Dwi ddim yn licio'r gaeaf.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pobl ddim yn rhoi cŵn ar dennyn pan maen nhw fod ar dennyn.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Dwi wedi ysgrifennu erioed, yn llun a stori neu'n ddyddiadur neu benillion bach. Doedd o erioed yn benderfyniad penodol a dweud y gwir, jest dyna dwi'n ei wneud!

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Ar hyn o bryd mae'r plant yn rhoi llawer o syniadau i mi. Yn 7 a 3 oed maen nhw'n llawn dychymyg ac yn meddwl am bethau gwych a gwallgo. Dwi'n aml yn benthyg eu syniadau!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi'n hoff o sgwennu am bobl a chymeriadau, a dweud y gwir, yn fwy na themâu neu bynciau arbennig.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Ceisiwch ysgrifennu fel eich hoff awdur, ac yna daliwch ati i ysgrifennu, nes dod o hyd i'ch llais eich hun.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?**
Gorau: rhywun yn dweud eu bod wedi mwynhau un o fy llyfrau. Gwaethaf: lot fawr o oriau ar ben fy hun gyda neb ond y laptop yn gwmni.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Y Gwningen yn Cipio'r Tân.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Jini Mê.

**Hoff le?**
Traeth Dinas Dinlle.

**Hoff fwyd?**
Salad. Jôc! Cacen siocled.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Moana.*

**Hoff air?**
Pendwmpian.

**Superpower o ddewis?**
Rhewi amser.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Clywed fy meibion yn chwerthin o'u boliau.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Rhedeg caffi.

**Top tip i ddarpar awduron:**
Cadwch nodiadur; tydi syniadau ddim yn aros yn eich pen am byth!

# Caryl Lewis








**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Ces i fy ngeni yn Aberystwyth a fy magu yn Aberaeron.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Aberaeron.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i wrth fy modd yn gwneud celf ac yn gweld fy ffrindiau, ond yn casáu mathemateg (sori!).

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
I ddechrau, ro'n i eisiau bod yn filfeddyg, yna, ro'n i eisiau bod yn gyfreithwraig, yna ro'n i eisiau astudio celf ... ac a dweud y gwir, dwi'n dal ddim yn gwybod be dwi eisiau bod pan dwi'n tyfu i fyny.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Ro'n i wrth fy modd gyda llyfrau T. Llew Jones a Roald Dahl.

**Beth yw eich diddordebau?**
Dwi'n hoffi rhedeg, garddio, cadw gwenyn, arlunio a chreu gemwaith o arian.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Amser i botshan adref, a bod yn fy nhŷ gwydr.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Traffig!

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Dwi'm yn meddwl bod rhywun yn meddwl am ysgrifennu a dweud y gwir; mae ysgrifennu ynddoch chi'n barod. Mae e'n llechu yn eich ymennydd chi yn rhywle a dyna yw eich ffordd chi o ddod i adnabod y byd.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
O bob man. O tu mewn i fi fy hun, o hen atgofion, o rywbeth mae rhywun yn ei ddweud. O ryw deimlad y'ch chi'n ei gael rhyw ddiwrnod, ac o ddarluniau rydych chi'n eu gweld. O syniadau eraill, o freuddwydion, ac o weld rhywbeth o gornel eich llygaid.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Natur, y syniad o gartref, gwreiddiau, breuder bywyd.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Teimlwch yr hyn rydych chi'n ei ysgrifennu. Teimlwch e yn fwy na meddwl amdano fe.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau yw medru gweithio gartre a gwneud beth y'ch chi'n ei garu bob dydd. Y peth gwaethaf yw fod bobl yn meddwl ei fod yn hawdd i chi. Er bod ysgrifennu yn medru bod yn rhan o'ch cyfansoddiad, mae angen ymroddiad ac amynedd. Mae pob llyfr yn cynrychioli oriau ac oriau o waith.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Danny the Champion of the World.*

**Hoff gymeriad o lyfr?** Sali Mali.

**Hoff le?** Adre.

**Hoff fwyd?** Cig oen.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Pride and Prejudice.*

**Hoff air?** Twmffat.

# Sioned Wyn Roberts






**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Pwllheli.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Troed-yr-Allt ac yna Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Casáu hoci/caru hanes.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
O'n i eisiau bod yn ddeintydd ar un adeg – camgymeriad!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Y clasur – *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones, antur hanesyddol.

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen, ffilm, celf, awyr iach.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Glan y môr.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Y ci!

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Wnes i erioed feddwl am ysgrifennu tan i mi fynd ar gwrs yn Nhŷ Newydd, a dyna lle ges i'r chwilen yn fy mhen, a mynd amdani.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Dydw i ddim bob tro yn siŵr o ble maen nhw'n dod, ond mae pethau doniol ddigwyddodd pan o'n i'n blentyn yn aml yn ymddangos. Dwi'n mwynhau ysgrifennu nofelau hanes, felly mae gwneud ymchwil i'r cyfnod yn sbarduno syniadau.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Hanes, chwedlau, cymeriadau difyr.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Cer amdani. Meddylia am stori, meddylia am gymeriadau da a jest dechrau ysgrifennu. Yn bersonol, dwi'n gweld y stori fel ffilm yn fy mhen ac yn ysgrifennu honno, wedyn yn mynd yn ôl eto ac eto i ailddrafftio a gwella'r gwaith. Does neb yn cael popeth yn iawn y tro cyntaf; rhaid i awduron profiadol fireinio eu gwaith sawl tro hefyd, felly – amdani!

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau yw creu cymeriadau a byd hollol newydd oedd ddim yn bodoli o'r blaen. Y peth gwaethaf yw gweithio'n galed ar bennod ac edrych arni'r diwrnod wedyn a meddwl ei bod yn sothach!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Mae Miss Havisham o *Great Expectations* gan Charles Dickens yn gymeriad ardderchog, er ei bod yn berson annymunol.

**Hoff le?**
Traethau Pen Llŷn.

**Hoff fwyd?**
Cinio dydd Sul.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Paddington 2* a *Deian a Loli*.

**Hoff air?**
Crinc!

**Superpower o ddewis?**
Cwestiwn da! Bod yn anweledig.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Ffilmiau o fabis anifeiliaid ar Instagram.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Arlunydd ella, neu ryw swydd yn y byd ffasiwn. O'n i eisiau bod yn ddeintydd pan o'n i'n yr ysgol – ond roedd hynny'n gamgymeriad mawr!

**Top tip i ddarpar awduron:**
Meddylia am stori, meddylia am gymeriadau da a dechrau ysgrifennu. Dwi'n gweld y stori fel ffilm yn fy mhen ac yn ysgrifennu honno, yna'n mynd yn ôl i ailddrafftio a gwella'r gwaith. Amdani!

# Naomi Bennet




**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Cefais fy ngeni yng Nghaergrawnt, ond cefais fy magu yn Leeds, yn Harlow yn Essex, ac yn Thatcham yn Berkshire hefyd.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Es i ysgol gynradd yn Harlow ac yn Thatcham. Kennet oedd enw fy ysgol uwchradd yn Thatcham.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn i wrth fy modd gyda gweithgareddau creadigol yn yr ysgol, ac mi wnes i ddod o hyd i ffyrdd o fwynhau hynny yn fy holl bynciau, fel gwneud posteri am destunau'r gwersi hanes. Doeddwn i ddim yn hoffi'r adegau pan fyddai'n cymryd llawer o amser i mi ddeall beth ro'n i'n ei ddysgu. Er hynny, wnes i wir fwynhau astudio amrywiaeth o bynciau.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Roeddwn i eisiau bod yn actores am amser hir.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Dwi wastad yn cael trafferth dewis ffefryn achos dwi'n hoff iawn o sawl llyfr, ond dwi'n caru *Mog the Forgetful Cat*.

**Beth yw eich diddordebau?**
Dwi wrth fy modd yn treulio amser yn yr awyr agored, yn archwilio lleoliadau diddorol fel twneli yn y goedwig, mynyddoedd creigiog neu draethau gwyllt. Dwi'n mwynhau unrhyw beth creadigol, fel peintio crochenwaith, yn ogystal â phobi. A dwi'n mwynhau pob un o'r rhain hyd yn oed yn fwy wrth eu gwneud gyda ffrindiau neu deulu.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Cacen. Llyfrau dwi ddim eisiau stopio eu darllen. Gwylio ffilm newydd.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Dydw i ddim yn mynd yn flin yn hawdd, ond dwi'n teimlo'n grac iawn pan fydd pobl yn cael eu trin yn annheg.


**Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn ddarlunydd?**
Roedd yn teimlo fel breuddwyd bell pan oeddwn i'n fach. Yna dewisais gwrs Darlunio yn y brifysgol, wedi i mi fod yn astudio Celfyddyd Gain. Sylweddolais yn syth 'mod i'n teimlo'n llawer mwy cartrefol yn darlunio.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Eiliadau bach mewn bywyd, neu fanylion bach sy'n teimlo'n anarferol yn fy mywyd. Mae hyn yn aml yn digwydd yn ystod yr eiliadau hynny pan fydda i'n teimlo'n hynod o hapus neu'n drist.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi wastad yn mwynhau edrych ar amrywiaeth o bynciau. Fodd bynnag, mae gen i ddiddordeb gwirioneddol mewn natur, a'r ffyrdd mae'n teimlo i fod yn fyw, a'r cysylltiadau rhwng pobl.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?**
Tynnu llun o'r byd go iawn trwy arsylwi – pobl, lleoedd, gwrthrychau ac anifeiliaid, hyd yn oed os ydyn nhw'n symud – dyna'r ffordd orau o wella. Mi fyswn i wedi hoffi gwneud mwy o ddarlunio gwyliadol (*observational drawing*). Mae'n anodd, ond mae'n dod yn haws drwy ymarfer! A cheisiwch ddod o hyd i'r elfennau rydych chi'n eu mwynhau wrth arlunio.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn ddarlunydd?**
Y peth gorau yw gwneud i ddelweddau ddod yn fyw ar dudalen, a rhannu'r weledigaeth honno gyda phobl eraill. Mae'n gallu cymryd amser hir weithiau i syniadau lifo, sy'n golygu treulio oriau unig a rhwystredig yn eistedd wrth fy nesg – dyna'r peth gwaethaf.




## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Mog the Forgetful Cat.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Luna Lovegood o'r gyfres Harry Potter.

**Hoff le?**
Gardd fy nain.

**Hoff fwyd?**
*Brownies* siocled.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
Ffilm: *The Best Exotic Marigold Hotel.*
Rhaglen teledu: *Death in Paradise.*

**Hoff air?**
Llachar.

**Superpower o ddewis?**
Gallu adfer yr amgylchedd.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Whatsapp.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Bod gyda ffrindiau a theulu.

**Swydd tasech chi dim yn ddarlunydd? Swydd ddelfrydol?**
Gwneud props neu bod yn ddylunydd mewn theatr.

**Top tip i ddarlunwyr y dyfodol?**
Mae delweddau fel arfer yn edrych yn fwy prydferth ac yn teimlo'n fwy bywiog pan nad ydych chi'n poeni am sut maen nhw'n edrych, ac yn mwynhau'r broses o ddarlunio. Os nad ydych chi'n ei mwynhau, dewch o hyd i ffordd i'w mwynhau!

# Valériane Leblond








**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yn Angers, gorllewin Ffrainc.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Yn Angers, Rennes ac yn Nantes.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn wrth fy modd yn yr ysgol, yn gwneud celf, ysgrifennu straeon a dysgu geometreg.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Roeddwn am fod yn awdur.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Fy hoff lyfr oedd *The Ox-cart Man* gan Donald Hall a Barbara Cooney, stori am deulu o ffermwyr yn yr Unol Daleithiau.

**Beth yw eich diddordebau?**
Rwy'n hoff iawn o ddarlunio, darllen a choginio.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Gweld fy mhlant yn hapus.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Bwlio.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn ddarlunydd?**
Rwy wastad wedi bod yn darlunio, ond dechreuais feddwl amdano o ddifri yn yr ysgol uwchradd.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
O bob man o'm cwmpas: straeon dwi'n eu clywed, llyfrau rwy'n eu darllen, lluniau o'r Canol Oesoedd a lluniau modern.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Rwy'n hoffi darlunio byd natur, clywed straeon o'r gorffennol, a gweld yr hud a lledrith yn fy mywyd pob dydd.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?**
Mynd ati a chyfri pob llun fel ymarfer ar gyfer yr un nesaf.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn ddarlunydd?**
Y peth gorau, mwyaf hudolus yw gweld fy lluniau mewn llyfr a dychmygu bod pobl dros y byd yn eu mwynhau nhw. Y peth gwaethaf yw sylwi 'mod i wedi anghofio rhywbeth wedi i'r llyfr fynd i'r wasg!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*The Ox-cart Man* gan Donald Hall a Barbara Cooney.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Max yn *Lle Mae'r Pethau Gwyllt yn Byw/Where the Wild Things Are* gan Maurice Sendak.

**Hoff le?**
Grisiau tu allan i dŷ Mam-gu ar ddiwrnod o haf.

**Hoff fwyd?**
*Millefeuille* (tebyg i sleisen gwstard ond yn llawer neisach!).

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Wall-E*.

**Hoff air?**
Y gair Ffrangeg *nuage* sy'n golygu 'cwmwl'.

**Superpower o ddewis?**
Teleportio – er mwyn ymweld â fy ffrindiau a'm teulu mewn chwinc.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram, achos mae gymaint o arlunwyr talentog arno.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy mhlant.

**Swydd tasech chi dim yn ddarlunydd? Swydd ddelfrydol?**
Awdur.

**Top tip i ddarlunwyr y dyfodol:**
Paid byth â stopio darllen llyfrau plant a mwynhau'r lluniau.





## Sioned Dafydd

*Cadeirydd y Panel, Uwch Ddarlithydd Addysg, Prifysgol Metropolitan Caerdydd*

Mae gen i atgofion melys o wrando ar straeon yn cael eu darllen i fi yn blentyn. Yn ysgol Felin-fach ac yna Ysgol Aberaeron, doedd dim yn well na chael treulio gwers yn llyfrgell yr ysgol. Y ffefrynnau yr adeg honno oedd *Cysgod y Cryman* gan Islwyn Ffowc Elis a'r *Wisg Sidan* gan Elena Puw Morgan.

Fel mam i Lewys a Cadi, sydd bellach yn eu harddegau, dwi wedi mwynhau rhannu llyfrau gyda nhw, hyd yn oed pan oedd rhaid darllen *Cacen Sali Mali* am y canfed tro! Dwi hefyd wedi cael fy nghyflwyno i awduron ganddyn nhw, ac mae nofelau Manon Steffan Ros yn plesio pawb yn y teulu.

Dwi wrth fy modd pan mae fy hoff awduron yn cyhoeddi llyfr newydd ond dwi hefyd yn cael blas mawr ar ail-droi dalennau llyfr cyfarwydd; maen nhw fel hen ffrindiau rydych chi'n cadw mewn cysylltiad â nhw. Dwi'n grediniol bod ymgolli mewn llyfr da yn un o bleserau mwyaf bywyd.



## Rhys Dilwyn Jenkins

*Adolygydd Llyfrau ac Aelod o Glwb Darllen*

Roeddwn i'n mwynhau darllen yn arw pan oeddwn i'n iau. Wedyn roedd prysurdeb fy mywyd gwaith yn golygu nad oedd gen i lawer o amser i ddarllen, ond fe wnaeth cyfnodau cynnar y pandemig ailgynnau'r sbarc hwnnw i mi. Oherwydd hynny, creais gyfrif Instagram lle dwi'n ysgrifennu adolygiadau dwyieithog o lyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae hi mor hyfryd cael rhannu fy hoff lyfrau â phobl.

Ymunais â chlwb Llyfrau Lliwgar yng Nghaerdydd yn ddiweddar, lle rydyn ni'n trafod llyfrau a ysgrifennwyd gan amrywiol awduron, ac mae themâu allweddol y storïau hyn yn canolbwyntio ar faterion LHDTC+. Mae'n brofiad hyfryd cael trafod y storïau hyn yn agored ac yn onest gyda grŵp mor gyfeillgar, ac mae'n wych cael darllen llyfrau na faswn i wedi'u darllen fel arall.

Mae'n fraint cael fy ngwahodd i fod ar banel beirniaid Gwobrau Tir na n-Og eleni, a dwi'n edrych ymlaen yn arw at ddarllen yr holl lyfrau a gweld beth sydd gan awduron Cymru i'w cynnig!



## Siôn Lloyd Edwards

*Myfyriwr Cymraeg*

Er fy mod yn Gymro i'r carn, mae'r diolch yn bennaf i Adran Gymraeg wych Ysgol Brynhyfryd am fy helpu i ddisgyn mewn cariad â llenyddiaeth Gymraeg. Yn fy amser hamdden rwyf wrth fy modd yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon – pêl-droed yn bennaf. Rwyf hefyd yn hoff o'r celfyddydau.

Mae astudio'r Gymraeg yn Aberystwyth wedi agor fy llygaid i nifer o yrfaoedd ac wedi rhoi cyfle imi wthio fy ngalluoedd er mwyn cyflawni gwaith o'r safon uchaf. Mae'n fraint cael bod yn rhan o'r panel beirniaid eleni, ac edrychaf ymlaen yn arw at ddarllen y llyfrau i gyd. Diolch am y croeso, a phob hwyl!



## Sara Yassine

*Cyn-athrawes*

Dwi wastad wedi bod yn hoff o ddarllen. Roedd llyfr yn fy nwylo drwy'r dydd pan oeddwn yn iau. Roeddwn i'n mynd i'r llyfrgell leol ger fy nhŷ i'n aml ac yn benthyg cymaint o lyfrau ag y medrwn (o'r hyn dwi'n ei gofio, 10 oedd y mwyaf ar un tro – er mawr siom i mi). Fel llawer o blant eraill, fy hoff awdur oedd Enid Blyton ond roeddwn i'n mwynhau llyfrau Jacqueline Wilson a Roald Dahl hefyd.

Roedd gen i ddychymyg byw fel plentyn – rhywbeth a oedd yn bendant yn gysylltiedig â'r holl ddarllen. Mae darllen hefyd yn grêt er mwyn gwella eich geirfa a'ch dull ysgrifennu, ac os ydych chi'n dewis y llyfrau cywir, gallwch ddod yn fwy caeth iddyn nhw nag i'ch ffôn symudol.

Mae'n fraint cael bod yn rhan o'r panel eleni. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth sydd ar gael i blant heddiw, a hefyd gweld yr hyn y collais allan arno – er, dwi'n siŵr bydda i'n mwynhau darllen lot ohonyn nhw fel oedolyn!


Chwip o nofel gyda llu o gymeriadau lliwgar a llinell storïol y gall pobl o bob oedran ei mwynhau.




Roeddwn i mor awyddus i wybod beth fyddai'n digwydd nesaf wrth i'r stori ddatblygu, darllenais i'r llyfr cyfan o glawr i glawr mewn un diwrnod!

Bydd y nofel hon yn sicr yn ffefryn blynyddol adeg y Nadolig. Byddai'n gwneud ffilm Nadolig wych!

Dyma stori farddonol ysgafn sy'n cyferbynnu bywyd yn y ddinas â bywyd ar lan y môr, gyda darluniadau swynol.




Mae'n stori fach syml ond hyfryd. Mae'r lluniau yn wych.

Llyfr ar gyfer moment dawel!


Stori Nadoligaidd ddifyr
gyda lluniau hyfryd iawn ynddi.




Hudolus a chyfareddol! Stori
sy'n wreiddiol ond yn oesol
gyda chyfrinach ar y diwedd!

Mae'r iaith yn gyfoethog gydag
ambell i gyffyrddiad tafodieithol ar
adegau. Mae'r darluniau yn arbennig
ac yn ychwanegu at y stori.

Mae perthynas Twm ac Albi yn llywio'r stori hon. Mae'n dda gweld datblygiad eu perthynas yn ogystal â stori antur sy'n sicr o ennyn diddordeb y darllenwyr.




Chwip o stori dda. Byddai T. Llew Jones ei hun wedi mwynhau hon!

Roedd cael yr esboniad am gefndir y nofel a'r ffeithiau perthnasol ar y diwedd yn ddiddorol iawn.


**Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi eu hysgrifennu am y llyfrau.**
*Llungopïwch y dudalen yma i bob adolygwr.*










Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.

| Llyfr | |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|---|
| **Clawr / Broliant**<br>Ydych chi'n hoffi'r clawr?<br>Ydi'r broliant yn eich denu i ddarllen y llyfr?<br>Ydi'r clawr yn eich denu? | **/5** | | | | |
| **Diwyg / Edrychiad**<br>Ydych chi'n hoffi'r darluniau yn y llyfr?<br>Ydi'r darluniau yn ychwanegu at y stori?<br>Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol.<br>Ydych chi'n hoffi ffont y geiriau? Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol. | **/5** | | | | |
| **Arddull / Iaith**<br>Pa fath o iaith mae'r awdur wedi ei defnyddio? e.e. tafodiaith, disgrifiadau, odlau.<br>Wnaethoch chi ddysgu unrhyw eiriau newydd wrth ddarllen y llyfr?<br>Oedd yr iaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd?<br>Oeddech chi'n deall yr iaith?<br>Oedd yr iaith yn ddiddorol? | **/5** | | | | |
| **Cynnal diddordeb**<br>Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr?<br>Beth oedd yn cynnal eich diddordeb? e.e. doniolwch, antur, cymeriadau, gwybodaeth<br>Oeddech chi'n awyddus i ddarllen y llyfr i gyd?<br>Ydi'r llyfr yn mynd i aros yn eich cof?<br>Ydi'r llyfr yn un gwreiddiol? | **/5** | | | | |
| **Cymeriadau**<br>Pa fath o gymeriadau oedd yn y llyfr?<br>Oedd y cymeriadau yn rhai diddorol/credadwy?<br>Sut fyddech chi'n disgrifio'r cymeriadau?<br>Oedd y cymeriadau yn apelio atoch?<br>Oeddech chi'n gallu uniaethu â'r cymeriadau? | **/5** | | | | |
| **Cyfanswm** | **/25** | | | | |




Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2024, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau, yn eich barn chi. Rhowch **X** yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

**Cofiwch bleidleisio yng nghategori Barn y Darllenwyr: tlws arbennig sy'n cael ei ddyfarnu gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Cysgodi Tir na n-Og.**

## Cerdyn Pleidleisio

- **Jac a'r Angel** ☐
- **Y Gragen** ☐
- **Mari a Mrs Cloch** ☐
- **Wyneb yn Wyneb** ☐

## Cerdyn Pleidleisio

- **Jac a'r Angel** ☐
- **Y Gragen** ☐
- **Mari a Mrs Cloch** ☐
- **Wyneb yn Wyneb** ☐

## Cerdyn Pleidleisio

- **Jac a'r Angel** ☐
- **Y Gragen** ☐
- **Mari a Mrs Cloch** ☐
- **Wyneb yn Wyneb** ☐

## Cerdyn Pleidleisio

- **Jac a'r Angel** ☐
- **Y Gragen** ☐
- **Mari a Mrs Cloch** ☐
- **Wyneb yn Wyneb** ☐

2024

Beth am rannu eich profiad cysgodi ar y cyfryngau cymdeithasol?

Cofiwch dagio ni:
**@LlyfrDaFabBooks**
a defnyddiwch
yr hashnodau:
**#CaruDarllen**
**#TNNO2024**
**#CysgodiTNNO2024**

Tir na n-Og
GWOBRAU • AWARDS

#CaruDarllen

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES